# GWEITHGAREDDAU BLASU'R GYMRAEG: CROESO I FY MYWYD

**Ystod oedran:** 8-14 oed

**Amlinelliad**
Cyflwynir y dysgwyr i bedwar o bobl ifanc y cyfwelwyd â nhw gan ymchwilwyr Bywydau Ifanc, dau ohonynt o India a dau o Beriw. Bydd y dysgwyr wedyn yn defnyddio testun ysgrifenedig a chwarae rôl i ymchwilio'n fanylach i fywydau'r bobl ifanc hyn. Yn olaf, byddant yn dechrau meddwl am unrhyw nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng bywydau'r bobl ifanc hyn a'u bywydau nhw eu hunain ac yn trafod y rheiny, ynghyd â rhesymau posibl dros unrhyw wahaniaethau.

**Amcanion dysgu**
- Actio rôl a datblygu empathi at eraill.
- Gallu trafod syniadau gydag eraill mewn grŵp.
- Defnyddio ffynonellau ysgrifenedig i ddatblygu gwybodaeth ehangach am fywydau pobl ifanc ym mhedair gwlad Bywydau Ifanc.
- Adnabod nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng bywydau'r bobl ifanc sy'n cael sylw a bywydau'r dysgwyr eu hunain.

**Deilliannau dysgu**
- Bydd y dysgwyr yn dadansoddi testun ysgrifenedig er mwyn nodi a chasglu gwybodaeth am fywydau rhai pobl ifanc yng ngwledydd Bywydau Ifanc.
- Bydd y dysgwyr yn actio rôl un o'r bobl ifanc sy'n cael sylw.
- Bydd y dysgwyr yn trafod eu syniadau ag eraill.
- Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu rhestr o'r nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng bywyd un o'r bobl ifanc sy'n cael sylw a'u bywydau nhw eu hunain.

**Cwestiynau allweddol**
- Beth yr ydych chi'n ei wybod am y person ifanc hwn? Sut fywyd sydd ganddo/ganddi, yn eich barn chi?
- A ydych chi'n meddwl bod bywydau'r holl bobl ifanc yn y gwledydd hyn yr un fath? Pam/Pam ddim?
- Pa nodweddion tebyg a gwahanol sydd rhwng bywyd y person ifanc hwn a'ch bywyd chi eich hun?
- A allwch chi feddwl am resymau dros y nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau hyn?

**Adnoddau**
- Sioe sleidiau*:* sleidiau 2–5, 17-21
- Taflenni adnoddau:
  *1) – 4) Croeso i fy mywyd: Salman a Harika (India); Luz a Manuel (Periw)*
- *Taflenni gweithgareddau:*
  *1) Cwestiynau'r cyfweliad*
  *2) Nodweddion tebyg a gwahaniaethau*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

**Gweithgaredd 1** *(20 mun)*

*Croeso i fy mywyd*

- Defnyddiwch sleidiau 3 a 4 o'r sioe sleidiau i gyflwyno'r dysgwyr yn fyr i brosiect Bywydau Ifanc.
- Dangoswch y map o'r byd ar sleid 5. Gofynnwch a all y dysgwyr leoli'r Deyrnas Unedig a phedair gwlad Bywydau Ifanc (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam) arno. Cliciwch ymlaen ar y sleid i ddatgelu lleoliadau'r gwledydd hyn.
- Defnyddiwch y proffiliau plant *Croeso i fy mywyd* (Taflenni adnoddau 1 i 4) i gyflwyno un neu ddau o'r plant dan sylw i'r dosbarth. Darperir ffotograffau o'r pedwar plentyn a gwybodaeth gryno amdanynt ar sleidiau 18 i 21.
- Trafodwch ymatebion a syniadau cychwynnol y dysgwyr. Gallech gynnwys y cwestiynau canlynol:
    - *Pa nodweddion tebyg a gwahaniaethau sydd rhwng bywydau'r bobl ifanc dan sylw a'ch bywyd eich hun?*
    - *Pa nodweddion tebyg a gwahaniaethau sydd rhwng bywydau'r bobl ifanc hyn sydd dan sylw?*
    - *A oes unrhyw wahaniaethau rhwng y bobl ifanc sy'n byw yn yr un wlad?* Defnyddiwch y cwestiwn hwn i amlygu bod gwahaniaethau rhwng y dysgwyr yn eich dosbarth a bod gwahaniaethau hefyd rhwng plant ym mhob un o wledydd Bywydau Ifanc. Esboniwch y gall fod gwahaniaethau hefyd rhwng bechgyn a merched, yn ogystal â rhwng plant sy'n byw mewn trefi a dinasoedd a'r rheiny sy'n byw mewn pentrefi neu yng nghefn gwlad.
    - *Beth yn eich barn chi, fyddai rhai o'r rhesymau dros y gwahaniaethau hyn?*

**Gweithgaredd 2** *(30 mun)*

*Cyfweld â Bywydau Ifanc*

- Dosbarthwch gopïau o'r daflen *Cwestiynau'r cyfweliad* (Taflen gweithgaredd 1) a phroffiliau *Croeso i fy mywyd* pedwar plentyn gwahanol, fel bod pob dysgwyr yn cael proffil un o'r bobl ifanc dan sylw.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen eu proffil plentyn a meddwl sut y byddent yn cyflwyno'r unigolyn ifanc hwn i eraill yn y dosbarth.
- Wedyn, gofynnwch i'r dysgwyr baru gyda rhywun sydd â phroffil plentyn gwahanol a chymryd eu tro i fod yn gyfwelydd neu i eistedd yn y 'gadair goch' yn rôl yr unigolyn ifanc dan sylw. Gofalwch eu bod yn deall diffiniadau 'trefol' a 'gwledig' cyn cychwyn ac esboniwch y cânt ddefnyddio'r bylchau ar y daflen *Cwestiynau'r cyfweliad* i gofnodi eu hatebion. Lle na ddarperir atebion i gwestiynau'r cyfwelydd ym mhroffil y plentyn, gall y dysgwyr ymateb gan actio'r rôl, gan ddefnyddio eu syniadau eu hunain yn seiliedig ar agweddau eraill ar yr hyn y maent wedi'i ddarllen.
- Os bydd amser yn caniatáu, gallai parau o ddysgwyr gyflwyno'i gilydd i bâr arall, gan actio'r rôl. Fel arall, gallai parau o ddysgwyr actio'u cyfweliadau i eraill yn y dosbarth.

**Gwahaniaethu**

- *Gwneud pethau'n haws: Gallai'r dysgwyr weithio mewn parau i ddarllen un o'r proffiliau plant a meddwl am sut y byddent yn cyflwyno'u person ifanc i eraill yn y dosbarth.*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

**Gweithgaredd 3** *(20 munud)*

*Nodweddion tebyg a gwahaniaethau*

- Fel dosbarth cyfan, myfyriwch ar yr hyn a ddysgwyd yn sgil y gweithgaredd blaenorol. Yna, mewn grwpiau bach, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau a welant rhwng bywydau'r bobl ifanc sy'n cael sylw. *A oes unrhyw wahaniaethau rhwng y bechgyn a'r merched? A oes unrhyw wahaniaethau rhwng y bobl ifanc sy'n byw mewn trefi a dinasoedd, o'u cymharu â'r rhai sy'n byw mewn pentrefi neu yng nghefn gwlad?* Mae'n bwysig pwysleisio bod y proffiliau hyn yn disgrifio bywydau dau blentyn yn unig o bob gwlad. Bydd amrywiaeth enfawr ym mywydau'r holl blant ym mhob un o'r gwledydd hyn, yn yr un modd â'r amrywiaeth sydd yn eich dosbarth eich hun.
- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am unrhyw nodweddion tebyg a gwahaniaethau sydd rhwng bywyd y person ifanc sy'n cael sylw a'u bywydau eu hunain. Gallai'r dysgwyr gofnodi eu syniadau gan ddefnyddio'r tabl ar y daflen *Nodweddion Tebyg a Gwahaniaethau* (Taflen gweithgaredd 2).

**Syniadau pellach**

- Gellid cynnal y cyfweliadau *Cyf-weld â Bywydau Ifanc* ar ffurf gweithgaredd carwsél. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau am ychydig o funudau i holi ei gilydd am y person ifanc sy'n cael sylw ganddynt. Ar ôl pum munud, gofynnwch i'r dysgwyr symud ymlaen a threulio pum munud yn siarad â rhywun arall. Gwnewch hynny nifer o weithiau er mwyn rhoi siawns i'r dysgwyr gael gwybod am gynifer o'r pedwar unigolyn ifanc â phosibl.
- Darllenwch a thrafodwch broffiliau'r bobl ifanc eraill o gymunedau Bywydau Ifanc yn Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam.
    - Gweler *Sesiwn 1, Uned 1* o adnoddau Oxfam *Mae Pawb yn Cyfrif* ar gyfer pobl ifanc 8-12 mlwydd oed:

      www.oxfam.org.uk/education/resources/everyone-counts
    - I gael rhagor o gymorth â'r gweithgaredd hwn, gweler hefyd *Sesiwn 1* o adnoddau Saesneg Oxfam *Mwy neu Lai'n Gyfartal?* ar gyfer pobl ifanc 11-16 mlwydd oed:

      www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-english
- Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu erthygl papur newydd ynghylch y plentyn y buont yn cyf-weld ag ef/hi.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu cofnod dyddiadur gan gymryd arnynt rôl y plentyn sy'n cael sylw ganddynt.
- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar a rhowch gopi o un o'r proffiliau plant *Croeso i fy mywyd* i bob grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr gydweithio i greu tair ffrâm rewi sy'n darlunio gwahanol agweddau ar fywyd eu person ifanc. Gallai'r dysgwyr gymryd eu tro i berfformio rolau gwahanol, gan gynnwys yr unigolyn ifanc dan sylw, aelodau o'r teulu, ffrindiau, athrawon, cyflogwyr a gweithwyr iechyd.
    - Gweler *Sesiwn 2* o adnoddau Saesneg Oxfam *Mwy neu Lai'n Gyfartal?* i gael rhagor o gymorth â'r gweithgaredd hwn:

      www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-english

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Gofynnwch i'r dysgwyr restru cwestiynau pellach yr hoffent eu gofyn i'r plant dan sylw. Er na fyddant yn gallu darganfod yr atebion, mae'r broses holi ei hun yn datblygu empathi. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr hyn sy'n gwneud cwestiwn da. Anogwch nhw i arbrofi â gwahanol fathau o gwestiynau; er enghraifft cwestiynau agored a chwestiynau caeedig, neu gwestiynau syml a chymhleth. Trafodwch fanteision ac anfanteision mathau gwahanol o gwestiynau.
- Gyda dysgwyr hŷn neu fwy abl, rhowch gynnig ar weithgareddau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu eraill o adnoddau Saesneg Oxfam *Mwy neu Lai'n Gyfartal?*:

  www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-english

**Telerau defnyddio**

Hawlfraint © Oxfam GB/Bywydau Ifanc

Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam yn ogystal â Bywydau Ifanc. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

## Croeso i fy mywyd – Salman (India drefol) Taflen adnoddau 1

Fy enw i yw Salman *(Swl-mân)* ac yr wyf yn 12 mlwydd oed. Rwy'n byw mewn cymdogaeth dlawd yn ninas Hyderabad, prifddinas talaith Telangana yn India. Rwy'n dod o deulu Mwslimaidd. Rwy'n byw gyda fy mam, dau frawd a chwaer iau a dau frawd a chwaer hŷn. Bu farw fy nhad o drawiad ar y galon pan oeddwn yn chwech oed. Rydym yn byw yn agos at ganol y ddinas. Rwy'n hoffi lle'r ydym yn byw. Mae'r bobl eraill yn ein cymuned yn bobl neis. Gallwch chi ymddiried ynddynt.

Gadewais yr ysgol yng ngradd 1 ac rwyf bellach yn gweithio fel cynorthwyydd gwerthu mewn siop esgidiau. Mae fy mam yn gweithio fel morwyn, yn gofalu am dŷ rhywun cyfoethog. Mae fy mam yn dweud na all hi fforddio ein hanfon ni i'r ysgol. Mae bywyd yn galed iawn iddi heb fy nhad. Rwyf yn gweld eisiau fy nhad hefyd. Rwy'n cadw llun ohono gyda mi.

Rwy'n ennill 30 rwpî (tua 30c) y dydd ac rwy'n rhoi'r rhan fwyaf ohono i fy mam. Rwy'n cadw pum rwpî fel fy arian gwario fy hun. Weithiau, bydd y cwsmeriaid yn rhoi cildwrn i mi gan fy mod yn dlawd. Mae fy mam yn rhoi pecyn cinio i mi i fynd i'r gwaith bob dydd. Mae fy ffrindiau yn gweithio hefyd, un fel masnachwr stryd ac un mewn siop ddillad.

Mae tri bachgen arall yn gweithio yn y siop esgidiau. Mae'r un iau yn gweithio yn y prynhawn ac yn astudio yn y bore. Rwy'n hoffi perchennog y siop lle'r wyf yn gweithio oherwydd ei fod yn edrych ar ôl y bechgyn eraill a minnau. Mae ganddo hefyd synnwyr digrifiwch da ac mae'n dweud jôcs.

Gadewais yr ysgol ac rwy'n gweithio fel cynorthwyydd gwerthu mewn siop esgidiau.

Cydnabyddiaeth y llun: © Bywydau Ifanc/ Farhatullah Beig

Bob dydd, rwyf fel arfer yn treulio deg awr yn cysgu, wyth awr yn gweithio a chwe awr yn chwarae. Pan oeddwn yn iau, roeddem yn arfer chwarae yn y llaid. Roeddem yn arfer bwyta'r llaid ac roedd rhai plant yn rhoi'r llaid ar eu pennau! Roeddem ni hefyd yn arfer chwarae marblis. Ond erbyn hyn, gallaf ond chwarae pan fyddaf yn dod adre o'r gwaith. Rwyf hefyd yn gwylio'r teledu. Rwy'n hoffi rhaglenni comedi fel *Mr Bean*.

Rwy'n credu bod yn rhaid i mi weithio'n galed i ennill arian a chael iechyd da. Nid oes gennyf unrhyw ddewis ond parhau i weithio.

Dydw i ddim yn siŵr am yr hyn yr wyf am ei wneud yn y dyfodol. Efallai un diwrnod byddaf yn dechrau fy siop fy hun. Neu efallai y byddaf yn mynd yn ôl i'r ysgol.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Cymharu Bywydau Ifanc – Sesiwn Cymraeg



OXFAM

## Croeso i fy mywyd – Harika (India wledig) Taflen adnoddau 2

Rhaid i mi weithio'n galed gartref i helpu fy mam.

Cydnabyddiaeth y llun: © Bywydau Ifanc/Farhatullah Beig

Fy enw i yw Harika (*Har-i-ka*) ac yr wyf yn ferch 12 mlwydd oed. Rwy'n byw mewn pentref yn nhalaith Telangana yn India. Fi yw'r unig ferch yn y teulu. Mae gennyf ddau frawd, un yn hŷn ac un yn iau. Mae fy mrawd hŷn yn aros gyda modryb sy'n byw gerllaw. Mae'n rhaid i mi weithio'n galed i helpu fy mam gartref. Rwy'n ysgubo'r llawr, yn golchi'r llestri, yn coginio ac yn nyddu cotwm. Rhaid i mi hefyd nôl dŵr o'r tap yn y stryd y tu ôl i'n tŷ ni. Nid oes rhaid i'm brawd iau wneud dim gwaith tŷ.

Bu'n rhaid i mi wneud mwy a mwy o waith yn y misoedd diwethaf. Anafodd fy nhad ei goes mewn damwain ffordd ac mae'n methu gweithio, felly mae'n rhaid i fy mam dreulio rhan fawr o'i hamser yn gweithio yng nghaeau'r teulu.

Fel y rhan fwyaf o'r plant yn fy mhentref, mae'n rhaid i fy mrawd a minnau weithio yn y caeau yn ystod y tymor cotwm. Weithiau, daw plant o bentrefi cyfagos i helpu hefyd. Mae'n rhaid *peillio'r* cotwm. Mae ar bawb yn y pentref angen yr arian a gawn trwy werthu'r cotwm. Mae'n waith caled, poeth a pheryglus ar adegau. Mae rhai plant yn mynd yn sâl oherwydd y plaleiddiaid y mae'r oedolion yn eu chwistrellu ar y cnydau. Mae nadroedd yn achosi perygl hefyd. Cefais fy nghnoi ar fy nhroed un tro.

Rwy'n mwynhau'r ysgol ac yr wyf yn meddwl bod addysg yn bwysig. Heb addysg, nid ydym yn gwybod dim. Felly, os awn ni i'r ysgol gallwn ddysgu am bob dim.

Yn yr ysgol, rwy'n chwarae gemau fel sgipio a *kho kho* gyda fy ffrindiau. Weithiau, rwy'n gwylio'r teledu gyda'r nos yn nhŷ fy nghymydog.

Rwy'n pryderu am golli'r ysgol pan fydd yn rhaid i mi weithio yn y caeau. Yn ystod yr amser hwn, rwy'n aml yn codi am 4.00am er mwyn astudio cyn mynd i weithio. Mae fy ffrind Salma yn lwcus gan nad oes rhaid iddi hi weithio yn y caeau nac yn y cartref ac mae hi'n gwisgo ffrogiau neis.

Er bod yn rhaid i mi weithio yn y caeau weithiau, fi oedd yr unig ddisgybl yn y dosbarth i gael fy newis ar gyfer ysgoloriaeth genedlaethol. Roedd yn rhaid i mi sefyll arholiad ar ei chyfer. Rwy'n falch i mi gael fy newis ac rwy'n ddiolchgar i'm hathro am fy hyfforddi ar ôl ysgol.

Hoffwn i fod yn athro fel fy ewythr pan fyddaf yn hŷn. Fodd bynnag, ni allaf astudio ymhellach na gradd deg yn ysgol y pentref. Byddai fy rhieni'n hoffi petawn i'n dal ati i astudio ar ôl gradd 10 ond byddai'n rhaid i mi fynd i'r ysgol mewn pentref arall.

**Geiriau Allweddol**

- Ystyr *peillio* yw bod paill yn cael ei drosglwyddo i stigma neu ofwl blodyn neu blanhigyn, i ganiatáu ffrwythloni.
- Yn India, mae *kho kho* yn gêm fuarth boblogaidd sy'n debyg i chwarae tic.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Cymharu Bywydau Ifanc – Sesiwn Cymraeg



OXFAM

## Croeso i fy mywyd – Manuel (Periw wledig) Taflen adnoddau 3

Rwy'n helpu pobl eraill ar eu tir yn y prynhawn ar ôl ysgol.
Cydnabyddiaeth y llun: © Bywydau Ifanc/Sebastian Castañeda

Fy enw i yw Manuel (*Man-wel*) ac yr wyf yn fachgen 12 mlwydd oed. Rwy'n byw mewn pentref *gwledig* yn ucheldir yr Andes ym Mheriw. Mae fy nheulu yn *Quechua*. Dyma un o'r prif grwpiau *brodorol* ym Mheriw. Rwy'n byw gyda fy nwy chwaer, fy nhri brawd, fy rhieni a'm mam-gu. Mae pawb yn y teulu yn bwysig iawn i mi ac mae fy mrodyr a'm chwiorydd a minnau'n cyd-dynnu'n dda. Mae gennym ieir, defaid, mochyn a buwch yn ogystal â chi, cath a thwrci!

Mae llawer o blanhigion, adar, coed, anifeiliaid a bryniau yn ein cymuned. Mae'n lle hardd. Mae ein tŷ ni ar lwybr cul ger y brif ffordd. Mae'n dŷ adobe deulawr. Deunydd traddodiadol wedi'i wneud o dywod a chlai yw adobe. Mae cegin ar wahân hefyd wedi'i gwneud o gardbord rhychiog.

Mae fy rhieni'n gweithio'n galed. Mae fy mam yn gweithio o fore gwyn tan nos. Mae hi'n coginio ar fferm ac yn gwneud y gwaith tŷ. Mae gan fy nhad nifer o swyddi. Mae'n gweithio ar y fferm i hau india-corn, ac yn gwneud gwaith adeiladwr. Mae'n gweithio yn y fforest law hefyd, yn casglu dail *coca*.

Rwy'n helpu fy rhieni yn y tŷ ac ar ein fferm. Rwy'n falch iawn o allu gwneud hynny. Rwy'n medru crafu tatws a choginio. Rwyf hefyd yn medru gweithio ar y fferm. Cefais fy nysgu gan fy modryb gan fod fy nhad oddi cartref. Rwyf hefyd yn gweithio i bobl eraill ar eu tir. Rwy'n gweithio ychydig o oriau bob dydd, yn y prynhawn, ar ôl ysgol. Rwy'n gofalu am foch, yn casglu coed tân ac yn cynaeafu india-corn, gwenith a cwinoa.

Rwy'n cael tua 10 *sol* (tua £2.16) o dâl am brynhawn o waith. Rwy'n rhoi'r arian yr wyf yn ei ennill i fy mam. Rwy'n teimlo'n dda o wneud hynny. Yn fy amser hamdden, yr wyf yn chwarae pêl-droed, pêl-foli a phêl-fasged. Rwyf wedi dysgu reidio beic yn ddiweddar. Rwy'n hoffi mynd i'r eglwys hefyd.

Bûm i'n mynd i'r ysgol er pan oeddwn yn bump oed. Rwyf yng Ngradd 4 o hyd yn yr ysgol gynradd ond mae'r rhan fwyaf o'r plant sydd yr un oed â mi yng Ngradd 6 neu ym mlwyddyn gyntaf yr ysgol uwchradd. Collais i lawer o wersi y llynedd am fy mod i'n gweithio mor galed a bu'n rhaid i mi ailadrodd y flwyddyn. Rwy'n hoffi fy ystafell ddosbarth a'r holl bosteri sydd ar y waliau. Rwy'n hoffi fy athrawes hefyd am ei bod hi'n ein hannog ni i ddysgu. Hoffwn i fod yn beiriannydd neu'n athro pan fyddaf yn hŷn. Hoffwn i deithio hefyd!

**Geiriau Allweddol**

- Mae'r *Quechua* yn un o'r grwpiau *brodorol* ym Mheriw, sef y bobl a oedd yn byw ym Mheriw yn wreiddiol cyn i'r cyfaneddwyr o Sbaen gyrraedd yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Trwy gydol hanes maen nhw'n aml wedi cael eu trin yn annheg ac wedi wynebu anfantais mewn bywyd.
- Defnyddir y gair *gwledig* i ddisgrifio ardal yng nghefn gwlad.
- Mae *coca* yn gnwd pwysig ym Mheriw. Mae pobl yn cnoi'r dail ac yn eu defnyddio i wneud te yn ogystal â'u defnyddio mewn meddyginiaeth draddodiadol.
- Grawn yw cwinoa sydd wedi cael ei dyfu ym mynyddoedd yr Andes ers miloedd o flynyddoedd.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Cymharu Bywydau Ifanc – Sesiwn Cymraeg



OXFAM

## Croeso i fy mywyd – Luz (Periw drefol)

**Taflen adnoddau 4**

Fy enw i yw Luz (*Lws*) ac rwy'n ferch 14 blwydd oed. Rwy'n byw gyda fy rhieni, fy chwaer iau, fy ewythr, fy modryb a'm cefnder. Rydym yn byw mewn tref dawel a heddychlon yn rhanbarth Puno ym Mheriw. Rwy'n hoffi byw yma.

Mae fy nheulu'n bwysig iawn i mi. Mae fy nhad yn gofalu amdanaf ac mae fy mam yn anwylaidd iawn. Mae fy chwaer yn bwysig am ei bod hi'n cadw cwmni i mi. Rwy'n meddwl bod gan fy nheulu gynlluniau i drefnu parti i ddathlu fy mhen-blwydd yn bymtheg oed. Mae hwn yn ben-blwydd pwysig iawn ym Mheriw.

Rwy'n mwynhau bod gyda fy ffrindiau yn yr ysgol.

Cydnabyddiaeth y llun: © Bywydau Ifanc/Sebastian Castañeda Vita

Mae fy rhieni'n gweithio'n galed i gynnal busnes teiliwr bach. Rwy'n helpu weithiau hefyd. Pan oeddwn i'n naw oed, dysgais sut i olchi fy nillad a gwnïo llewys crysau gan ddefnyddio peiriant gwnïo yn yr ysgol. Dysgais gan fy nhad sut i ddefnyddio peiriant gwnïo ein teulu ac yn awr yr wyf yn medru gwnïo pethau eraill hefyd. Rwy'n helpu fy rhieni ar ôl i mi orffen fy ngwaith cartref.

Nid wyf yn cael tâl am y gwaith hwn ond yr wyf yn meddwl y dylai plant weithio i helpu eu rhieni oherwydd eu bod nhw'n prynu bwyd a dillad i'w plant ac yn eu cynnal trwy'r ysgol.

Bob dydd Llun a dydd Iau, mae fy mam yn mynd i'r farchnad i geisio gwerthu'r eitemau yr ydym wedi'u gwneud. Ar y dyddiau hynny, bydd hi allan o 6.00am tan 8.00pm. Mae fy nhad yn gweithio bob dydd yn y gweithdy gwnïo, o 6.00am tan 8.00pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac o 6.00am tan 10.00am ar ddydd Sul.

Dechreuais yn yr ysgol feithrin pan oeddwn i'n bump oed. I ddechrau, roedd cael fy ngalw wrth fy enw go iawn yn fy nrysu braidd. Tan hynny, roedd pawb yn fy ngalw wrth fy enw anwes bob amser, sef Milagros, sy'n golygu 'gwyrthiau'! Gadewais yr ysgol gynradd pan oeddwn i'n 11 oed. Rwy'n cofio taith raddio ein hysgol i Machu Picchu.

Rwyf bellach yng ngradd dau yn yr ysgol uwchradd. Ni fyddaf byth yn colli'r ysgol, heblaw pan fyddaf sâl a bydd fy rhieni'n dweud y caf aros gartref. Rwy'n hoffi rhai athrawon sy'n esbonio'r gwersi'n dda. Nid wyf yn hoffi cyflwr gwael yr adeiladau yn ein hysgol. Mae rhai o'r ffenestri a'r cypyrddau clo wedi torri ac mae graffiti ar y waliau.

Rwy'n credu y byddaf yn astudio yn y brifysgol erbyn i mi droi'n 20 oed. Mae fy rhieni'n gobeithio y byddaf yn gallu cael gradd prifysgol a mynd yn feddyg neu'n rheolwr busnes. Maen nhw'n hapus i mi beidio â phriodi tan ar ôl i mi orffen astudio.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Cymharu Bywydau Ifanc – Sesiwn Cymraeg



OXFAM

## Cwestiynau'r cyfweliad

## Taflen gweithgaredd 1

Beth yw eich enw?

Pa mor hen ydych chi?

Ble yr ydych yn byw?

A ydych yn byw mewn tref neu ddinas (ardal drefol) ynteu mewn pentref neu yng nghefn gwlad (ardal wledig)?

Gyda phwy yr ydych yn byw?

Sut beth yw eich tŷ?

Pa weithgareddau yr ydych yn eu gwneud mewn diwrnod nodweddiadol?

A ydych yn mynd i'r ysgol? Os ydych, beth yw eich teimladau am yr ysgol?

A oes rhaid i chi helpu eich rhieni gartref? Os oes, beth y mae'n rhaid i chi ei wneud?

Beth yr ydych yn hoffi ei wneud yn eich amser rhydd?

Beth yr hoffech fod pan fyddwch yn hŷn?

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Cymharu Bywydau Ifanc – Sesiwn Cymraeg



OXFAM

## Nodweddion tebyg a gwahaniaethau

## Taflen gweithgaredd 2

Dewiswch un o'r bobl ifanc ar y taflenni adnoddau *Croeso i fy mywyd*. Pa nodweddion tebyg a gwahaniaethau sydd rhwng eu bywyd nhw a'ch bywyd chi? Ysgrifennwch eich syniadau yn y tabl isod.

| **Nodweddion tebyg** | **Gwahaniaethau** |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.